## Tasg 1

# Beth? Ble? Pryd?

1. Gosodwch y brawddegau hyn yn y drefn gywir, o 1 i 10.

| | |
|---|---|
| Syrthiodd y teledu. | |
| Chwalodd y lamp ar y llawr. | |
| Maen nhw mewn gwersyll arbennig. | |
| Drysau'r cypyrddau'n agor. | |
| Roedd y prif gymeriad yn gorwedd yn y gwely'n hapus. | |
| Aethon nhw i'r cae. | |
| Dechreuon nhw yrru i ffwrdd. | |
| Dechreuodd darnau o'r nenfwd syrthio. | |
| Roedd rhaid iddyn nhw stopio'r car. | |
| Rhedodd y bobl allan o'r tŷ. | |

2. At beth mae'r darn yn cyfeirio, tybed? Trafodwch hyn mewn grŵp ac yna ysgrifennwch y manylion yn eich llyfrau.
Beth:
Ble:
Pryd:
Beth yn union ddigwyddodd:

Mae'r ateb cywir yn yr adran **Atebion a mwy**.

3. Gwaith unigol

a. Pwy yw'r prif gymeriad yn y darn, yn eich barn chi?

Dyn? Dynes? Merch ifanc? Bachgen ifanc?

Plentyn? Hen ddyn? Hen ddynes?

b. Rhowch resymau dros eich ateb.

4. a. Pa fath o brofiad sy'n cael ei gyfleu yn y darn?

b. Sut mae'r awdur yn ceisio cyfleu'r profiad? Nodwch o leiaf dri phwynt yn ogystal ag enghreifftiau o iaith addas o'r darn i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

c. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau'ch partner chi.

5. Ydy'r teitl **Newid byd** yn addas ar gyfer y darn hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.

Meddyliwch am deitl arall gallai'r awdur fod wedi ei ddefnyddio. Cymharwch eich syniad chi gyda syniadau'r grŵp a phenderfynwch ar y teitl gorau. Rhowch reswm dros eich dewis.